*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypandy, CF40 2XX**
**Dydd Iau, 25ain Ionawr, 2018 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt:Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 01443 424110)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk.**

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2017 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 10)**

3. **CYNYDDU CYFLAWNIAD AILGYLCHU – CYN CRAFFU**

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybod i Gynghorwyr am y trefniadau craffu sydd yn eu lle mewn perthynas â'r adroddiad 'Cynyddu Cyflawniad Ailgylchu'.

**(Tudalennau 11 - 20)**

4. **CYNYDDU'R HYSBYSIAD COSB BENODEDIG**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd, sy'n gofyn am awdurdod yr Aelodau i newid yr Hysbysiadau Cosb Benodedig cyfredol yn y maes gwasanaeth yma fel eu bod nhw yr un fath â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus a gyflwynwyd yn ddiweddar (i gyflwyno rheolaethau cŵn yn Rhondda Cynon Taf) er mwyn gweithredu dull cyson ar draws y Fwrdeistref Sirol.

**(Tudalennau 21 - 24)**

5. **CANLYNIADAU ARHOLIAD CYFNOD ALLWEDDOL 4 A 5 A CHATEGOREIDDIO YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER 2018**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n cadarnhau canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 ar gyfer 2016-17 a chategoreiddio Ysgolion Cynradd ac Uwchradd ar gyfer 2017-2018 yn ôl system Llywodraeth Cymru.

**(Tudalennau 25 - 34)**

6. **GWASANAETH TROSEDDAU'R IFAINC CWM TAF**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n hysbysu'r Cabinet am ganfyddiadau a deilliannau'r Cyd-arolygiad llawn o Wasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf (GTI), a gynhaliwyd ym Mawrth 2017, a thynnu sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â meysydd i'w gwella. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017.

**(Tudalennau 35 - 88)**

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CENEDLAETHOL – MABWYSIADU**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016-17 y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.

**(Tudalennau 89 - 116)**

8. **NEWIDIADAU GWEITHREDOL I'R GWASANAETH PRYDAU YN Y GYMUNED A'R CYNNIG I GAU CANOLFAN ORIAU DYDD SAN SIÔR A THROSGLWYDDO'R DDARPARIAETH MYNEDIAD AGORED CANOLFAN ORIAU DYDD I GANOLFAN ORIAU DYDD Y GILFACH-GOCH**

To receive the report of the Chief Executive providing Members with details of the proposed operational changes to the Community Meals Service and seeking authority to undertake a consultation on a proposal

to close St George's Day Centre and transfer open access day service to Gilfach Goch Day Centre.

**(Tudalennau 117 - 126)**

**9. CYFLAWNI'R CYNLLUN CORFFORAETHOL – "Y FFORDD YMLAEN" – BUDDSODDI AR GYFER Y DYFODOL**

To receive the report of the Chief Executive setting out the strategic capital investment priorities that this Council will commit to over the next three to five years to deliver its Corporate Plan – "the Way Ahead".

**(Tudalennau 127 - 134)**

**10. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD**

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."

**11. DATBLYGIAD LLETY BYW Â CHYMORTH AR GYFER UNIGOLION SYDD AG ANABLEDDAU DYSGU – PENLLEW COURT, ABERDÂR**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyfrannu arian cyfalaf i newid cynllun tai gwarchod Penllew Court ar gyfer pobl hŷn yn Aberdâr, sy'n eiddo i Gymdeithas Tai Cynon Taf, yn llety byw â chymorth newydd ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu.

**(Tudalennau 135 - 142)**

**12. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

**AM WYBODAETH AM**

**13. CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD WEDI'I DDIWEDDARU I ADLEWYRCHU NEWIDIADAU DIWEDDAR I'R UWCH DÎM RHEOL.**

**CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau’r Gymuned.
Richard Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol